Datganiad Sefyllfa Cyngor Sir y Fflint – Safleoedd wedi'u Hymrwymo

Yn sesiwn Gwrandawiad 7 CDLl Sir y Fflint cytunwyd, er mwyn cynorthwyo'r Arolygwyr, y byddai'r Cyngor yn darparu diweddariad ar nifer o safleoedd wedi'u hymrwymo y mae eu datblygiad wedi ei gwestiynu gan wrthwynebwyr. Mae'r Datganiad Sefyllfa hwn yn rhestru'r safleoedd dan sylw ac yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael.

Safle Wilcox Coach Works, Afonwen (19 uned)
Fel nodwyd gan sawl gwrthwynebydd, mae'r safle wedi cael caniatâd cynllunio am sawl blwyddyn. Fodd bynnag bu i berchnogaeth y safle newid yn 2019 pan fu i gwmni datblygu eiddo gaffael y safle (Broadstone Property Developments). Yn 2020 bu i'r cwmni gael cymeradwyaeth i ollwng nifer o amodau (3,5,6,7,8 a 9) y caniatâd cynllunio. Bu i'r Asiant gadarnhau ar 21/4/21 fod Broadstone yn symud i'r safle a byddant yn **cychwyn y datblygiad cyn diwedd Ebrill 2021.**
Felly bydd y safle'n cael ei ddatblygu yn gynt na'r disgwyl yn Nhaflwybr y Cyngor.

Brook Farm, Bwcle (16 uned)
Eto safle sydd wedi cael caniatâd cynllunio am nifer o flynyddoedd. Yr asiant (sef merch y perchnogion) wedi cadarnhau ar 15/4/21 mai'r bwriad oedd marchnata'r safle ond ni wnaed unrhyw gynnydd oherwydd sefyllfa Covid. O ran amserlen roedd yr asiant yn rhagweld y byddai datblygiad o fewn cyfnod y cynllun a nododd ei bod yn sicr yn disgwyl cynnydd o fewn y ddwy flynedd nesaf. Dywedodd bod ei rhif ffôn wedi ei guddio ar y ffurflen cais cynllunio ar wefan y Cyngor a gofynnodd a ellir dadwneud hyn gan y byddai'n croesawu cyswllt gan ddatblygwyr. Ar sail y wybodaeth hon mae'r Cyngor yn ei ystyried yn rhesymol i ragweld datblygiad y safle o fewn cyfnod y cynllun.

Bromfield Timber, Yr Wyddgrug (122 uned)
Mae cofnodion y Cyngor yn dangos y cafwyd cymeradwyaeth materion a gadwyd yn ôl yn 2010 a gwnaed dechreuad technegol ar y safle, felly mae'r caniatâd cynllunio yn bodoli.
Mae asiant y perchennog wedi nodi bod y safle yn annhebygol o gael ei ddatblygu cyn 2024 ac roedd y perchennog yn gweithio ar ddatblygu safleoedd tai eraill ar hyn o bryd. Gall y perchennog hefyd ystyried cynlluniau eraill ar gyfer y safle. Mae'r Cyngor yn nodi bod un gwrthwynebydd wedi nodi bod y gwerth a geisir ar gyfer y safle gan y perchennog wedi ei gyfyngu a gellir datblygu cynllun arall ar y safle.

Rose Lane, Mynydd Isa (58 uned)
Mae'r ffigyrau yn Nhaflwybr y Cyngor yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd yn 2020 gan y datblygwyr, Cymdeithas Dai Clwyd Alyn a oedd yn gobeithio cychwyn ar y safle yn Nhachwedd 2020. Fodd bynnag mae'r dyddiad cychwyn wedi symud yn bennaf oherwydd materion Covid a bellach mae Clwyd Alyn wedi cadarnhau (Ebrill 2021) bod Anwyl wedi eu penodi fel partner adeiladu ac maent yn gobeithio cychwyn ar y safle ar ôl cael caniatâd cynllunio. Penderfynodd Pwyllgor Cynllunio y Cyngor gymeradwyo'r cynllun yn amodol ar gytundeb A106 yn ei gyfarfod ar 26/11/20 a deallir y bydd y cytundeb yn cael ei gwblhau yn fuan iawn.

Station Yard, Coed Talon (49 uned)
Cymeradwywyd cymeradwyaeth Materion a gadwyd yn Ôl (mynediad, tirlunio, cynllun a graddfa) a llofnodwyd cytundeb A106 mewn perthynas â'r safle hwn ym Medi 2019. Mae'r safle yn weithredol fel depo glo ar hyn o bryd ond cadarnhaodd y perchennog ar 16/4/21 ei fod yn

edrych am safle arall ac roedd yn rhagweld yn sicr y byddai'r datblygiad yn digwydd o fewn y 5 mlynedd nesaf.

I'r dwyrain o Halkyn Road, Treffynnon (44 uned)
Roedd Cymdeithas Dai Wales and West yn gobeithio cychwyn ar y safle yn Hydref 2020 ond oedwyd hyn oherwydd yr angen i drin problemau draenio. Mae Wales and West yn gweithio gyda Dŵr Cymru i ddatrys y problemau, ac mae arian grant a chontractwr mewn lle. Mae Wales and West yn rhagweld rhaglen adeiladu 2 flynedd.

Nant y Gro, Gronant (41 uned)
Mae gan y safle hwn sy'n berchen i'r Cyngor y fantais o gael caniatâd cynllunio llawn yn 2018 a bydd yn cael ei ddatblygu gan Wates Residential o dan Raglen Strategol Tai ac Adfywio'r Cyngor (SHARP). Mae'r datblygwr yn aros i amod cynllunio gael ei ollwng i alluogi i'r gwaith gychwyn ar y safle, rhagwelir y bydd hyn yn haf 2021 gyda'r gwaith yn cymryd tua 60 wythnos i'w gwblhau.